**MEMO**

At: Holl aelodau'r staff
Oddi wrth: Craig Davies
Pwnc: Cod dillad
Dyddiad: Mai 31

Fel mae rhai ohonoch chi'n gwybod, cafwyd cwynion yn ystod tywydd poeth haf y llynedd ynglŷn â sut roedd rhai aelodau o staff yn gwisgo yn y gwaith. Oherwydd y tywydd crasboeth ym mis Awst, penderfynodd rhai aelodau o staff ddod i'r gwaith mewn sandalau anaddas (a pheryglus i'r gwaith!), fflip fflops a siorts Bermuda a chrysau T gyda sloganau mawr arnyn nhw. Roedd yna deimlad ymhlith aelodau'r cyhoedd - a'r rheolwyr - bod dillad o'r fath yn anaddas i'r gweithle hwn.

O ganlyniad, penderfynwyd gwahodd cynrychiolydd o bob adran i drafod y mater eleni ac, ar ôl trafod â nhw, hoffwn dynnu eich sylw at ddau beth, sef cod dillad y sefydliad yma a'r penderfyniadau gwnaethon ni fel grŵp yn ystod ein cyfarfod.

**Y cod dillad**

Ers blynyddoedd, yr arfer yn y sefydliad hwn yw gwisgo dillad pob dydd smart neu drwsiadus. Mewn geiriau eraill, mae disgwyl i bob aelod o staff wisgo dillad taclus, glân, sy'n gyfforddus ac yn bwrpasol i'r gwaith. Nid oes angen gwisgo siwt neu ffrog smart - oni bai eich bod chi'n dymuno gwneud hynny - ond rhaid peidio â bod yn flêr neu'n anniben.

Er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod beth yw'r disgwyliadau, penderfynodd y grŵp y byddai llunio rhestr o ddillad derbyniol a dillad annerbyniol yn ddefnyddiol:

**Yn gyffredinol:**

1. Ni chaniateir siorts o dan unrhyw amgylchiadau.
2. Ni chaniateir dillad y traeth na dillad chwaraeon o unrhyw fath.
3. Gall aelodau staff wisgo crys llewys byr neu grys T addas, h.y. crys T plaen. Nid ddylent wisgo crysau T â sloganau arnynt. Fodd bynnag, os oes ymgyrch codi arian arbennig yn cael ei gynnal yn genedlaethol neu'n lleol, fel Plant mewn Angen neu Ymgyrch Tŷ Diogel yma yn y dre, gall aelodau staff wisgo'u crysau T nhw yn ystod cyfnod yr ymgyrch.
4. Dylai crysau, crysau T, topiau ac ati fod o hyd priodol fel nad yw'n bosib gweld y bol / cefn lle mae'r top yn cwrdd â'r sgert neu'r trowsus.
5. Ni ddylid gwisgo hetiau, capiau nac unrhyw beth arall ar y pen, oni bai bod gan aelod o'r staff gredoau crefyddol sy'n mynnu hynny. Caniateir penwisg o dan yr amgylchiadau hynny.
6. Rhaid gwisgo esgidiau priodol bob amser - sandalau, esgidiau cyfforddus - ond dim fflip fflops.

Mae dilyn y canllawiau hyn yn bwysig er mwyn creu delwedd broffesiynol.

Gobeithio y byddwch chi'n hapus â'r rhestr hon. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau, mae croeso i chi ddod i siarad â fi unrhyw adeg. Mae drws fy swyddfa'n agored bob amser.